

## Pwyllgor Cyfle Cyfartal

### COFNODION

**Dyddiad:** 22 Tachwedd 2000

**Amser:** 2.00 pm

**Lleoliad:** Y Siambr, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol:** **Aelodau**

Edwina Hart (Cadeirydd)	Gwyr
Lorraine Barrett	De Caerdydd a Phenarth
Richard Edwards	Preseli Sir Benfro
Christine Gwyther	Gorllewin a De Caerfyrddin
Alison Halford	Dyffryn Clwyd
Helen Mary Jones	Llanelli
David Melding	Canol De Cymru
Jonathan Morgan	Canol De Cymru
Janet Ryder	Gogledd Cymru
Owen John Thomas	Canol De Cymru

### **Cynghorwyr i'r Pwyllgor**

Teresa Rees	Comisiwn Cyfle Cyfartal
Kate Bennett	Comisiwn Cyfle Cyfartal

Mashuq Ally	Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol
Will Bee	Comisiwn Hawliau Anabledd
<b>Swyddogion</b>	
Alan Lansdown	Is-Adran Cynnal Disgyblion
Mike Harper	Is-Adran Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Cydraddoldeb a Phenodiadau Cyhoeddus
Charles Willie	Uned Polisi Cydraddoldeb
Julie Bragg	Dirprwy Glerc y Pwyllgor
Adrian Green	Dirprwy Is-Glerc y Pwyllgor

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Christine Humphreys.

## **Eitem 1: Adroddiad y Cadeirydd**

### **Eitem Lafar**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol a dywedodd pa mor falch ydoedd o allu cynnal cyfarfod y Pwyllgor yn Siambr y Cynulliad o ganlyniad i ddigwyddiadau'n gysylltiedig ag Wythnos Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru. Dywedodd ei bod yn bleser ganddi weld cymaint o bobl ifanc yn yr oriel yn enwedig y rhai o Ysgol y Betws ac Ysgol Uwchradd Fitzalan a ddangosodd ddiddordeb brwd yn y weithdrefn penodiadau cyhoeddus. Diolchodd i'r rhai oedd wedi cymryd rhan yn nigwyddiadau'r dydd o ran penodiadau cyhoeddus gan gynnwys y Llywydd, Aelodau'r Cynulliad a'r Athro Teresa Rees. Croesawodd y siaradwyr i'r cyfarfod heddiw a'r pum aelod newydd i'r Pwyllgor a fyddai, yn ei barn hi, yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'w waith.

1.2 Dywedodd y Cadeirydd y cynhaliwyd cyfarfod ar 14 Tachwedd i drafod yr adroddiad ar benodiadau cyhoeddus i Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a gynhyrchwyd gan Wendy Morgan o'r BBC. Cynhyrchodd Wendy restr o bwyntiau gweithredu y dylid eu rhoi ar waith yn ei hadroddiad a gyflwynwyd fel papur i'w nodi ar hyn o bryd. Dywedodd hefyd fod y ddau bapur arall i'w nodi wedi deillio o'r cyflwyniad gan y Fonesig Rennie Fritchie, Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus y DU, yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

1.3 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau o ganlyniadau materion diweddar ac, yn arbennig, iddi gynnal cyfarfod adeiladol gyda Syr Harry Jones, Cadeirydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). Cynigwyd y byddai CLILC yn ceisio nodi 'awdurdodau arbrofol' a fyddai'n gweithredu fel esiampl o arfer gorau mewn cydraddoldeb ar gyfer awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Bydd yn rhoi adroddiad manylach ar y cynnydd yn y cyfarfod nesaf ym mis Ionawr pan fydd CLILC hefyd gobeithio mewn sefyllfa i gyflwyno adroddiad ar eu harchwiliad cydraddoldeb ar awdurdodau lleol.

## Eitem 2: Ymchwiliad Stephen Lawrence

2.1 Roedd y gweithgor o swyddogion sy'n bwriadu gweithredu argymhellion 67, 68 a 69 yn Adroddiad MacPherson ar farwolaeth Stephen Lawrence yng Nghymru wedi cyfarfod ddwy waith. Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Alan Lansdown adrodd ar ganlyniadau'r cyfarfodydd.

2.2 Eglurodd Alan Lansdown y sefydlwyd y gweithgor i gwrdd am gyfnod penodol o amser er mwyn adolygu beth oedd angen ei wneud i weithredu argymhellion addysg Adroddiad MacPherson. Gobaith y grwp oedd y byddent yn cynhyrchu eu hadroddiad mewn pryd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror a fyddai'n dangos argymhellion y grwp ar y camau y dylid eu cymryd i sicrhau fod y tri argymhelliad yn cael eu gweithredu. Roedd rhai elfennau sydd mewn grym ar hyn o bryd yn y cwricwlwm diwygiedig wedi deillio'n uniongyrchol o waith y grwp. Bu'r grwp yn gweithio'n agos gyda'r Adran Addysg a Chyflogaeth er mwyn sicrhau fod mesurau i hyrwyddo a pharchu amrywiaeth diwylliannol mewn grym.

2.3 Adroddodd ar yr ardaloedd allweddol canlynol:

- Cynhyrchodd ACCAC bapur yn amlinellu sut roeddent yn bwriadu sicrhau fod materion cydraddoldeb yn cael eu trafod ar draws y cwricwlwm. Byddai ACCAC yn sefydlu cronfa ddata o ddeunyddiau priodol i'w defnyddio i amlygu amrywiaeth ym mhob agwedd ar y cwricwlwm. Gellid nodi unrhyw fylchau a ffynhonellu neu ddatblygu deunyddiau eraill. Y gobaith oedd y byddai ymagwedd o'r fath yn helpu i fynd i'r afael â hiliaeth.
- Byddai mwy o bwyslais ar hyfforddiant cydraddoldeb fel rhan o faes llafur hyfforddiant athrawon. Yn ogystal, gofynnwyd i ysgolion sicrhau fod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i hwyluso cytgord hiliol. Roedd Estyn yn edrych ar gynigion i wella gweithdrefnau ar gyfer monitro ethnig mewn ysgolion.
- Roedd tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu nas adroddir am bob digwyddiad hiliol mewn ysgolion. Mae'n debyg mae'r rheswm am hyn oedd diffyg arweiniad a mesurau i fynd i'r afael â'r broblem. Roedd yn bwysig bod pob plentyn yn ymwybodol o'r hyn a olygid wrth aflonyddu hiliol a bydd taflen yn cael ei dosbarthu a gwefan yn cael ei chreu i godi ymwybyddiaeth.
- Ystyriwyd defnyddio arian GEST i fynd i'r afael â digwyddiadau hiliol. Nid oedd yn glir eto a fyddai angen gwneud newid i'r ddeddfwriaeth sylfaenol (y byddai angen ei thrafod trwy'r Adran Addysg a Chyflogaeth) os byddai angen grymoedd gorfodol i gyflawni hyn.
- Ar hyn o bryd mae gofyn i ysgolion adrodd ar ddigwyddiadau hiliol i awdurdodau addysg lleol yn hytrach na'r Cynulliad. Fodd bynnag, cynigiwyd y dylid cynnwys y Cynulliad yn y dyfodol. Byddai hyn yn golygu bod y wybodaeth ar gael ond y farn ar hyn o bryd oedd na ddylid ei chyhoeddi ar lefel ysgol gan y gallai hyn ddifrio'r ysgol. Roedd camau o'r fath yn unol â barn yr Adran Addysg a Chyflogaeth ar faint o wybodaeth am ddigwyddiadau hiliol oedd ar gael. Mae un pryder cysylltiedig, fodd bynnag, yn deillio o farn cynrychiolwyr o'r heddlu oedd yn y gweithgor gynghorodd y gellid mynd ag ysgolion i gyfraith os na fyddent yn rhoi gwybod am sefyllfa hiliol a bod plentyn yn dioddef o ganlyniad. Roedd hyn fel petai'n ategu'r angen am fwy o hyfforddiant i staff.

2.4 Yn ystod y drafodaeth, cododd yr aelodau y pwyntiau canlynol:

- Fe'u calonogwyd fod cynnydd wedi'i wneud ond roeddent yn pryderu y byddai gwaith y grwp yn cael ei ohirio oherwydd yr amser y cymerai i addasu cyrsiau hyfforddi athrawon.

- Roedd pryderon os na fyddai gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi ar lefel ysgol yna y dylai fod ar gael ar lefel AALl. Gellir ystyried gwneud gwahardd disgyblion yn barhaol a gwahardd disgyblion dros dros am gyfnod hir yn anghyfreithlon. Cynghorodd Dr Ally y byddai argymhellion yn y Mesur Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) yn caniatáu i'r Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol (CRE) orfodi ysgolion i lunio adroddiad ar ddiwyddiad os nad oeddent wedi gwneud un yn barod a bod y corff rheoleiddio wedi methu â'i nodi. Byddai'r Cynulliad hefyd yn gyfrifol am sicrhau fod hyn yn digwydd.
- Cynigiodd yr aelodau y gellid cael eglurhad ar lefel AALl a'r ysgol briodol wedyn pan fo angen os oedd y mater yn achosi gwir bryder.

2.5 Cytunwyd y dylai grwp llywio'r aelodau gyfarfod i drafod y camau arfaethedig yn fwy manwl a dylent hwy a'r Cadeirydd drafod yr adroddiad cyn iddo gael ei gyflwyno i Weinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad ar gyfer sêl ei bendith a'i chymeradwyaeth ffurfiol hi.

### **Eitem 3: Gwaith Comisiwn Cyfle Cyfartal Cymru mewn lleoliad datganoledig**

**Cyflwyniad:** Julie Mellor, Cadeirydd, Comisiwn Cyfle Cyfartal

3.1 Adroddodd Julie Mellor ar faterion cyfoes yn ymwneud â chydaddoldeb hiliol a swyddogaeth y Comisiwn Cyfle Cyfartal yng Nghymru a'r DU. Adroddodd ar 3 prif faes:

- **Cyflog Cyfartal** – Mae gan y Cynulliad ddyletswydd statudol roi sylw dyledus i gyfle cyfartal. Golyga hyn, ymysg pethau eraill, arolygu ei strwythur talu ei hun a llunio cod ymarfer ar gyfer aelodau a staff y Cynulliad. Roedd y Comisiwn o'r farn y gallai deddfwriaeth ar gyflog cyfartal gael effaith bositif yng Nghymru i'r ddau ryw. Roedd tasglu'r Comisiwn yn gweithio ar adroddiad ar y mater hwn ac mae disgwyl ei gyhoeddi ym mis Chwefror.
- **Cydbwysedd bywyd a gwaith** - Yn y DU ar hyn o bryd mae 1 o bob 9 person yn gweithio mwy na 60 awr yr wythnos. Dim ond 8% o weithwyr oedd yn credu y gallent fod yn llwyddiannus wrth drafod oriau gwaith gwell ac roedd tystiolaeth fod pobl yn colli eu swyddi oherwydd eu bod yn dymuno neu angen newid eu horiau. Roedd angen cynyddu hyblygrwydd oriau gwaith hefyd a gweithredu hyn mewn polisi ac yn ymarferol. Roedd angen hefyd codi ymwybyddiaeth yn y sector preifat a chyhoeddus o'r angen am gyfnod mamolaeth a thadolaeth derbyniol gydag isafswm o 2 wythnos o gyfnod tadolaeth. Bellach y teimlad oedd bod merched yn gartrefol yn rhannu cyfrifoldebau magu a chyflogaeth.
- **Merched mewn bywyd cyhoeddus a gwleidyddol** – Roedd angen codi ymwybyddiaeth o'r difrod y gellir ei achosi gan ystrydebau hiliol. Roedd hyn yn arbennig o gyffredin yng Nghymru ac roedd angen gwirioneddol i fynd i'r afael â'r agenda cydraddoldeb. Roedd Ms Mellor yn falch fod y Cynulliad yn cynnal arddangosfa ar 10 Ionawr i ddathlu 25 mlynedd o'r Comisiwn a fyddai'n gweithredu i hyrwyddo merched mewn penodiadau cyhoeddus ond lleisiodd bryder mai dim ond canran fach iawn o ferched o gymunedau lleiafrifoedd ethnig oedd â swyddi o'r fath. Roedd y Comisiwn yn gweithio gyda phob plaid wleidyddol yn San Steffan i geisio cynyddu niferoedd ond roedd disgwyl o hyd i ferched aberthu eu bywyd teuluol i gael swydd wleidyddol.

3.2 Yn ystod y drafodaeth cododd yr aelodau y pwyntiau canlynol:

- Ychydig o gynnydd a wnaed o ran cyflog i ddynion a merched;
- Roedd angen ennyn diddordeb cyflogwyr er mwyn caniatáu trefniadau rhannu swyddi;
- Roedd cydraddoldeb i bobl anabl, a lesbiaid a dynion hoyw yn fater pwysig o hyd ac roedd angen esiamplau cadarnhaol o'r materion hyn yn arbennig.

3.3 Diolchodd y Cadeirydd i Ms Mellor am godi'r materion pwysig hyn. Nododd y byddai'n ddefnyddiol astudio cynllun corfforaeth y Comisiwn i weld sut yr oedd yn cyd-fynd ac yn cydnabod natur ddatganoledig amcanion y Cynulliad Cenedlaethol a'r Pwyllgor.

#### **Eitem 4: Adroddiad Blynyddol y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol**

4.1 Yn unol â Rheol Sefydlog 6.6, trafododd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol. Rhoddodd Dr Ally drosolwg o'r prif faterion a gododd o'r adroddiad, yn bennaf materion yn y Mesur Cysylltiadau Hiliol (Diwygio), datblygu Deddf Hawliau Dynol 1998, perthynas y Comisiwn gyda'r Comisiwn Cyfle Cyfartal a'r gwaith a ddeilliodd o adroddiad Stephen Lawrence. Ers cyhoeddi'r adroddiad hwnnw bu cynnydd o 40% yn y gydnabyddiaeth o ddigwyddiadau hiliol a chynydd o 120% mewn adroddiadau i'r Heddlu. Mae Gwasanaeth Eryl y Goron yng Nghymru bellach yn cydweithio gyda'r Comisiwn a gwnaed gwaith sylweddol gydag Awdurdodau Iechyd gyda gweithdrefn fonitro drylwyr bellach ar waith. Fodd bynnag, profwyd rhai gwendidau ar lefel llywodraeth leol ac roedd yn gobeithio y byddai'r Cadeirydd, gyda'i chyfrifoldeb dros Lywodraeth Leol a Chyllid yng Nghymru, mewn sefyllfa i ddatblygu'r pwynt hwn.

4.2 Roedd y Cadeirydd yn cydnabod fod rhai problemau o'u blaenau. Fodd bynnag, roedd wedi cael cyfarfod cynhyrchiol gyda Syr Harry Jones ac roedd posibl gwneud newidiadau yn y 12 mis nesaf a mynd â'r Sialens Arweinyddiaeth yn ei blaen.

#### **Eitem 5: Cefnogi Pobl Ddall-fyddar yng Nghymru – Herio Eithrio**

**Papur:** EOC-08-00(p.1)

**Cyflwyniad:** Vanessa Webb, Cyfarwyddwraig, Cyngor y Deillion yng Nghymru a John Micklewright, Rheolwr Cyffredinol, SENSE Cymru

5.1 Rhoddodd Vanessa Webb a John Micklewright gyflwyniad ar eu harolwg o gymorth awdurdodau lleol i bobl ddall-fyddar yng Nghymru. Y prif bwyntiau o'r adroddiad oedd:

- Roedd y diffiniad o ddallineb-fyddardod yn un cymdeithasol yn hytrach na meddygol. Gallai colli dau synnwyr yn aml arwain at ymdeimlad o ynysrwydd gan fod 95% o'r hyn mae pobl yn ei wybod yn dod o weld a chlywed. Amcangyfrifwyd fod 1300 o bobl yng Nghymru yn ddall-fyddar gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn oedrannus. Golyga hyn eu bod yn llai tebygol o chwilio am help ac felly yn mynd yn fwyfwy ynysig.
- Tra bod cynnydd yn cael ei wneud, roedd rhai awdurdodau lleol yn darparu gwasanaeth oedd yn sylweddol is nag eraill. Nid oedd gan 15 o awdurdodau bolisi dall-fyddar effeithiol o hyd ac nid oedd gan rai ohonynt gofrestr o gwbl. Nid oedd 10 o'r awdurdodau wedi derbyn cynnig SENSE Cymru am

wasanaethau eto.

- Roedd yr Adran Iechyd wedi cynnal arolwg ar ddallineb-fyddardod. Roedd yr Arglwydd Jack Ashley wedi cynnig Mesur i godi ymwybyddiaeth o'r cyflwr ond fe'i tynnwyd yn ôl gan fod yr Adran Iechyd yn teimlo nad oedd angen deddfwriaeth newydd.
- Gofynnwyd i bob awdurdod lleol yng Nghymru gymryd rhan yn yr arolwg ond ni wnaeth tri: dau am fod y terfynau amser ateb yn rhy dynn ond gwrthododd un gymryd rhan.
- Llwyddodd SENSE Cymru i ddatblygu cynllun cynghori un i un gyda 3 awdurdod lleol yng Nghymru hyn yn hyn: Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Phowys.

5.2 Awgrymodd yr aelodau y gallai fod yn briodol cyflwyno y mater o ddallineb-fyddardod i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Roeddent yn bwriadu cysylltu â'u hawdurdodau lleol eu hunain i godi'r mater a holi pa gamau y dylid eu cymryd i ddarparu gwasanaethau oedd yn deg â'r rhai a ddarparwyd gyda thrigolion eraill ardal yr awdurdod. Cynigiodd y Cadeirydd y dylid ysgrifennu at CLILC, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Gweinidog y Cynulliad a David Blunkett ynglyn â chyrraedd cydraddoldeb triniaeth ar draws y ffiniau.

## **Eitem 6: Cofnodion y pwyllgor blaenorol**

### **Papur: EOC-07-00 (min)**

6.1 Cytunodd y Pwyllgor â chofnodion y cyfarfod diwethaf yn amodol ar y newidiadau canlynol:

- Paragraff 3.2 – newid 'mân newidiadau' yn 'newidiadau syml'
- Paragraff 4.5 – ychwanegu 'y berthynas gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg a'r' ar ôl y gair 'ystyried'

6.2 Amlinellodd Mike Harper ei bapur ar benodiadau cyhoeddus oedd yn cynnig sefydlu corff newydd o aseswyr annibynnol ar gyfer penodiadau cyhoeddus a'r posibilrwydd o benodi Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru. Gofynnodd y Cadeirydd am bapur manylach ynglyn â'r cynigion yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor gan gynnwys cyngor ar gyfranogiad yr aelodau a hefyd gofynnodd am nodyn ar y weithdrefn ar gyfer penodi Aseswyr Annibynnol.

6.3 Yn dilyn ymlaen o'r cyflwyniad gan Angela Mason o Stonewall yng nghyfarfod diwethaf y pwyllgor, cynigiodd y Cadeirydd y dylid cynnal cyfarfod rhwng Stonewall, grwpiau eraill sy'n ymwneud â hawliau lesbiaid a hoywon a Kate Bennett cyn y Nadolig.

6.4 Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau a oeddent yn ystyried fod cynnal cyfarfodydd y Pwyllgor yn y prynhawn yn gyffredinol yn fwy neu'n llai cynhyrchiol na'r cyfarfodydd a gynhaliwyd yn y bore fel y gwnaethant yn flaenorol. Teimlai'r aelodau fod yn well ganddynt gyfarfodydd yn y bore a chynigiodd y Cadeirydd y dylid ysgrifennu at y Trefnydd yn gofyn iddo ailamserlennu'r cyfarfodydd ar gyfer sesiwn fore y Cynulliad.

6.5 Rhoddodd y Cadeirydd ben ar y cyfarfod trwy ddiolch i Andrew George am y gwaith rhagorol a wnaeth fel Clerc y Pwyllgor hwn a gofynnodd i'r aelodau ymuno â hi i ddymuno'n dda iddo yn ei swydd newydd fel Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Siambr.